# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 29 Medi 2021** |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor J.Warman** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.D.Morgan** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, D.Cawsey, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, D.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, S.Jones, D.Keogh, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor a/ac D.Whitelock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | Davies, S.Davies, C.Furlow-Harris, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, H.Jones, K.Jones, C.Morris, N.Pearce, M.Shaw, A.Thomas a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Roedd y Maer yn falch o hysbysu'r cyngor fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi derbyn nifer o enwebiadau yn y gwobrau APSE diweddar:

• Cyngor Cyffredinol Gorau'r Flwyddyn
• Y Fenter Gweithio ar y Cyd Orau gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector
• Tîm Gwasanaeth Gorau – Gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau a Glanhau Adeiladau

• Tîm Gwasanaeth Gorau – Gwasanaethau Mynwentydd ac Amlosgfeydd
• Menter Gweithio mewn Partneriaeth Gyhoeddus/Preifat Orau

Roedd y cyngor hefyd wedi ennill y Fenter Gweithio mewn Partneriaeth Gyhoeddus/Preifat Orau ar gyfer cynllun arloesol y cyngor – sy'n canolbwyntio ar gyfeiriadur ar-lein – Prynu'n Lleol CNPT. Diolchodd y Maer i'r holl staff am y gwaith y maent yn ei wneud dros Gastell-nedd Port Talbot a'r staff a enwebwyd.

Llongyfarchodd y Maer Harri Jenkins, a enillodd fedal efydd yn y ras 100 metr yng Ngemau Paralympaidd Tokyo, yn ogystal â Joe Brier a Daniel Jervis a ddewiswyd i gynrychioli Cymru, Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Tokyo.

Llongyfarchodd y cyngor hefyd y Cynghorydd Saif Rahaman a'i deulu ar enedigaeth ei fab.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. **COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 26 MAI A 30 GORFFENNAF 2021**

Nodwyd bod y Cynghorydd Sharon Freeguard yn bresennol yng nghyfarfod y cyngor ar 30 Gorffennaf 2021, yn ogystal â sillafiad cywir enw'r Cynghorydd Carolyn Edwards fel 'Carolyn' nid 'Caroline' mewn cofnodion blaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion 26 Mai a 30 Gorffennaf 2021, gan ystyried y cywiriadau uchod, fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd hynny.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CORFFORAETHOL 2020/2021**

Cymeradwyodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid, Diogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r cyngor. Diolchodd Aelod y Cabinet dros Strydlun a Pheirianneg i bawb a oedd wedi helpu yn ystod y ddau achos o lifogydd yn Sgiwen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD:**
1. Mabwysiadu Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 a'r Crynodeb Blynyddol.
2. Mabwysiadu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2020/2021.
3. Bod Arweinydd y Cyngor yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol cyn cyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y cyngor yn sylweddol.

5. **SIARTER CREU LLEOEDD**

**PENDERFYNWYD:**
1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid mabwysiadu'r Siarter Creu Lleoedd.
2. Bydd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn cyflwyno cais i'r Bartneriaeth Creu Lleoedd i'r cyngor ddod yn llofnodwr y Siarter.

6. **DEDDF GAMBLO 2005 - ADOLYGIAD O'R POLISI GAMBLO**

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu drosolwg i Aelodau'r Cyngor o'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac esboniodd unwaith eto nad oedd yn fwriad i ganiatáu cyhoeddi trwyddedau Casino yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid cymeradwyo ymgynghori ar y Polisi Gamblo diwygiedig.

7. **CYTUNO AR RAGLEN RECRIWTIO AELODAU LLEYG AR GYFER Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** 1. Cymeradwyo'r newidiadau i gyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 i gynnwys 8 aelod etholedig a 4 person lleyg, gyda chadeirydd lleyg yn cael ei benodi gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. Cymeradwyo Mrs Joanna Jenkins fel person lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 am gyfnod pellach o bum (5) mlynedd.

3. Cymeradwyo'r ymarfer recriwtio i benodi 3 pherson lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4. Cymeradwyo'r meini prawf cymhwysedd, y ffurflen gais a'r hysbyseb fel y nodir yn Atodiad 1, 2 a 3 o'r adroddiad hwn i'w defnyddio yn y broses recriwtio.

5. Sefydlu panel dethol fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. Bod adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i'r cyngor ar ôl i'r broses ddethol ddod i ben er mwyn i'r aelodau ystyried barn y Panel Dethol ac ystyried penodi lleygwyr.

8. **DIWEDDARIADAU I GYFANSODDIAD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddiwygio Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyda'r newidiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 o'r

adroddiad a ddosbarthwyd. Ynghyd â'r newidiadau yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd, a bod y Cyfansoddiad diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor.

9. **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**PENDERFYNWYD:** Bydd Mrs Stacy Curran (Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd) yn cael ei dynodi'n Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn unol ag Adran 8 (1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

10. **NEWIDIADAU I GYNRYCHIOLAETH AELODAU**

**PENDERFYNWYD:** 1. Bydd y Cynghorydd C Edwards yn cymryd lle'r Cynghorydd J D Morgan ar y Panel Aelodau Coronafeirws.

2. Bydd y Cynghorydd S Rahaman yn cael ei benodi i'r sedd wag ar y Panel Aelodau Coronafeirws.

11. **CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRYD YN GYNNAR CNPT 2021 - 2022**

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid cymeradwyo Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid drafft Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot 2021-2022.

12. **HYSBYSIAD O GYNNIG O DAN ADRAN 10 O RAN 4 (RHEOLAU GWEITHDREFNAU) CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Derbyniwyd dau Hysbysiad o Gynnig o dan Adran 10 o Ran 4 (Rheolau Gweithdrefn) o Gyfansoddiad y Cyngor, ac fe'u nodwyd yng nghofnodion rhif 13 ac 14.

13. **SIARTER CNE Y GYMDEITHAS CLEFYD NIWRONAU ECHDDYGOL**

**PENDERFYNWYD:**1. Bydd y cyngor yn ymrwymo i Siarter MND y Cymdeithas Clefyd Niwronau Echddygol ac yn ymrwymo i hyrwyddo’i nodau a'i ddyheadau yng ngwaith y cyngor.

2. Bod y cyngor yn credu'r canlynol:

- Mae gan bobl ag MND yr hawl i gael diagnosis a gwybodaeth gynnar.
- Mae gan bobl ag MND yr hawl i gael gofal a thriniaethau o safon.
- Mae gan bobl ag MND yr hawl i gael eu trin fel unigolion a chydag urddas a pharch.
- Mae gan bobl ag MND yr hawl i wneud y mwyaf o ansawdd eu bywyd.
- Mae gan ofalwyr pobl ag MND yr hawl i gael eu gwerthfawrogi, eu parchu, eu clywed a'u cefnogi'n dda.

## 14. ANIFEILIAID ANWES FEL GWOBRAU

**PENDERFYNWYD:** 1. Y dylid gwahardd rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac mewn digwyddiadau a gomisiynir ac a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar dir nad yw'n eiddo iddo o bosib.

2. Y caiff llythyr ei baratoi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sy'n annog gwahardd rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir cyhoeddus a phreifat, ac eithrio yng nghyd-destun y teulu.

## 15. CWESTIYNAU GAN AELODAU, GYDA HYSBYSIAD, DAN REOL 9.2 O REOLAU GWEITHDREFNAU'R CYNGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## 16. EITEMAU BRYS

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 17 isod yn awr, cytunodd y Maer y gellid ei drafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm

Oherwydd yr elfen amser.

17. **MR HYWEL JENKINS**

Diolchodd y Maer, y Swyddogion a'r aelodau i Mr Hywel Jenkins, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151, am ei 19 mlynedd o wasanaeth i'r cyngor, ers 2002, a dymunwyd y gorau iddo ar gyfer ei ymddeoliad.

**CHAIRPERSON**